**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**19 HYDREF 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 19 Hydref 2023.

**YN BRESENNOL:**
Cynghorwyr: Paul Cunningham, Gladys Healey, Dave Mackie, Gina Maddison, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lisa Allen**,** Lynne Bartlett a Wendy White

**DIRPRWYON:**
Y Cynghorydd Glyn Banks (ar ran y Cynghorydd Bill Crease), y Cynghorydd Gillian Brockley (ar ran y Cynghorydd Teresa Carberry) a'r Cynghorydd Mel Buckley (ar ran y Cynghorydd Carolyn Preece)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd David Coggins Cogan (yn bresennol fel arsylwr)

**YMDDIHEURIADAU:**
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor); y Cynghorydd Mared Eastwood (Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden); y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cadarn gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael) a'r Prif Weithredwr

Ar gyfer cofnod rhif 31
Rheolwr Cyllid Strategol a Rheolwr Cyllid Strategol (Addysg)

Ar gyfer cofnod rhif 32
Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) ac Uwch Reolwr (Gwasanaethau Cefnogi Busnes)

Ar gyfer cofnod rhif 33
Uwch Reolwr (Gwasanaethau Ieuenctid Sir y Fflint) a Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

## 28. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Dywedodd yr Hwylusydd wrth y Pwyllgor y byddai angen penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

Gwnaeth y Cynghorydd Dave Mackie enwebu'r Cynghorydd Paul Cunningham a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Mel Buckley. Ar ôl cynnal pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Cunningham yn Gadeirydd y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cynghorydd Paul Cunningham yn cael ei benodi yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 29. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at Eitem 5 ar yr Agenda a gofynnodd am eglurhad ynghylch a ddylai ddatgan cysylltiad gan ei fod yn aelod o ddau Gyngor Tref a Chymuned. Dywedodd yr Hwylusydd wrth yr Aelodau, cyn belled â bod y wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar eu Ffurflen Cod Ymddygiad, nid oedd angen iddyn nhw ddatgan cysylltiad yn ystod y cyfarfod.

## 30. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr eitemau sydd wedi'u rhestru ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a oedd ynghlwm yn Atodiad 1. Nid oedd unrhyw newidiadau arfaethedig, ond cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at yr eitemau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys ar gyfer cyfarfod 1 Chwefror 2024.

Gan gyfeirio at yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu yn Atodiad 2, cadarnhawyd bod gweithdy'n cael ei drefnu i edrych ar y fwydlen newydd, y byddai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn mynd iddo, a bydd yr adborth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. O ran yr Adroddiad Hunanwerthuso Gwasanaethau Addysg 2022-23, cadarnhawyd y byddai Jennie Williams yn paratoi Nodyn Briffio ar raddau cyflwr ysgolion a fyddai'n cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at yr atodiad data hyfforddiant o Adroddiad Blynyddol GwE, yr oedd wedi'i ddosbarthu i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod diwethaf. Eglurodd fod y wybodaeth yr oedd wedi gofyn amdani fel a ganlyn:-

- Pa hyfforddiant oedd yn cael ei gynnig i athrawon yn Sir y Fflint;
- Pa hyfforddiant oedd yn cael ei ddyfeisio;
- Beth oedd pwrpas yr hyfforddiant;
- Faint o bobl a ddisgwylir i ddod i'r hyfforddiant.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie a fyddai modd mireinio'r ddogfen data hyfforddiant i gynnwys y wybodaeth uchod gan egluro y byddai'n fodlon cwrdd â swyddogion i drafod hyn. Cytunodd yr Hwylusydd i godi hyn gyda swyddogion yn dilyn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie hefyd at Leoliadau y Tu Allan i'r Sir a soniodd am weithdy a gynhaliwyd nifer o flynyddoedd yn ôl a fu o gymorth. Gofynnodd a ellid cynnwys hyn yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol er mwyn i'r Aelodau gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n rhan ohono yn ogystal â

chynorthwyo, efallai, ag atebion posibl i'r pwysau o ran y gyllideb. Awgrymodd hefyd y dylid darparu gweithdy i Aelodau ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir ar ôl pob etholiad Cyngor Sir.

Dywedodd yr Hwylusydd fod Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn dod dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Cytunodd drosglwyddo'r cais ar ôl y cyfarfod a gofynnodd bod y Pwyllgor yn cael ei wahodd i unrhyw gyfarfod sy'n ystyried y mater hwn. O ran y cais ar gyfer gweithdy, cytunodd i drafod â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i ofyn iddo gael ei gynnwys yn y broses flaengynllunio ar gyfer gweithdai i Aelodau yn y dyfodol.

Siaradodd y Cynghorydd Gladys Healey o blaid y sylwadau a wnaeth y Cynghorydd Mackie ynghylch Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a chyfeiriodd at gynnig yn ei ward hi a fyddai'n cefnogi pobl ifanc ac yn helpu i leihau'r gorwariant yn y gyllideb. Gofynnodd hi a fyddai modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn. Cytunodd yr Hwylusydd i siarad â swyddogion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cais y Cynghorydd Healey am wybodaeth.

Cafodd yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Arnold Woolley a'u heilio gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu nad oedd wedi'u cwblhau.

## 31. CYLLIDEB 2024/25 – CAM 2

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol yr adroddiad a'i ddiben oedd adolygu a rhoi sylwadau ar y pwysau o ran y gyllideb a lleihau costau dan gylch gwaith y Pwyllgor.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Strategol a'r Rheolwr Cyllid Strategol (Addysg) gyflwyniad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Phennu Cyllideb 2024/25 a oedd yn ymdrin â'r pwyntiau canlynol ar gyfer y Portffolio Addysg ac Ieuenctid:

- Pwrpas a Chefndir
- Y gofyniad cyllidebol ychwanegol ar gyfer y Cyngor
- Gofyniad Cyllidebol Ychwanegol – Risgiau Parhaus
- Y Sefyllfa Gyffredinol ar ôl y datrysiadau cychwynnol
- Crynodeb a Chasgliadau
- Crynodeb o'r Pwysau o ran Costau ar Addysg ac Ieuenctid
- Gostyngiadau yng Nghyllideb Addysg ac Ieuenctid
- Her Cyllideb 2024/25 – ein dull ni
- Gostyngiadau yng Nghyllideb Addysg ac Ieuenctid (1)
- Gostyngiadau yng Nghyllideb Addysg ac Ieuenctid (2)

- Crynodeb o Ostyngiadau yng Nghyllideb Addysg ac Ieuenctid
- Gostyngiadau yng Nghyllideb Addysg ac Ieuenctid (3)
- Pwysau o ran Costau ar Ysgolion
- Crynodeb o'r Pwysau o ran Costau ar Ysgolion
- Gostyngiadau yng Nghyllideb Ysgolion
- Portffolio Addysg ac Ieuenctid a Risgiau Parhaus mewn Ysgolion
- Y tu allan i'r Sir
- Y Camau Nesaf ar gyfer y Broses o Bennu Cyllideb 2024/25
- Proses y Gyllideb – Cam 2
- Proses y Gyllideb – Cam 3 (Terfynol)

Wrth gyfeirio at y cyflwyniad, argymhellodd y Cynghorydd Dave Mackie y dylai'r eitemau canlynol gael eu cynnwys ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor, a eiliwyd gan y Cynghorydd Jason Shallcross:-

- Recriwtio a Chadw Staff – Adroddiad ar faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff yn y Portffolio Addysg ac Ieuenctid; a
- Demograffeg – Adroddiad ar ddemograffeg a sut y byddai hyn yn effeithio ar gyllidebau yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ar ddiogelu gan y Cynghorydd Mackie, dywedodd yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) fod lefel yr achosion cymhleth mewn ysgolion wedi cynyddu ers y pandemig. Eglurwyd bod gan ysgolion gyfrifoldebau sylweddol o ran Diogelu ac Amddiffyn Plant ac mae'r portffolio'n rhoi cymorth ychwanegol i ysgolion ynghyd â chyngor ac arweiniad cyfredol. Roedd diogelu yn gymhleth ac yr oedd yn newid yn barhaus yn enwedig o ran diogelwch ar-lein. Oherwydd bod Diogelu yn cael ei flaenoriaethu, eglurwyd bod hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar y tîm a'u gallu i gefnogi ysgolion.

Wrth ymateb i'r awgrym a wnaeth y Cynghorydd Mackie ar gyfer yr eitemau ychwanegol yn ymwneud â recriwtio a chadw a demograffeg, dywedodd y Rheolwr Cyllid Strategol (Addysg) fod y materion yn ymwneud â recriwtio a chadw yn fater ehangach sy'n effeithio ar bob portffolio, felly byddai angen ystyried sut y gellid bwrw ymlaen â hyn. Eglurodd hefyd fod tystiolaeth o newidiadau mewn demograffeg ac y dylid disgwyl y rhain yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ddemograffeg yn y ddarpariaeth arbenigol yn cynyddu o ran niferoedd a chymhlethdod. Bu gostyngiad yn nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd ac eglurodd hi fod grŵp mwy o ddisgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd eleni a bod y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn llai. Byddai hyn yn anffodus yn effeithio ar ysgolion gan fod y rheoliadau yn mynnu bod 70% o gyllid ysgolion yn seiliedig ar niferoedd disgyblion, a bod y cyllid yn dilyn disgyblion. Roedd yn anodd rhagweld rhagolygon yn ymwneud â demograffeg a dylai unrhyw ostyngiadau yng nghyllidebau ysgolion hefyd ystyried y gostyngiadau o ran demograffig mewn ysgolion.

Gan ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Andrew Parkhurst ar gynnydd staff, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid Strategol y byddai hyn yn cyfateb i gynnydd yn nifer y staff yn y Tîm Gwella Ysgolion, a fyddai'n golygu recriwtio swydd ran

amser ychwanegol. Byddai cynnydd hefyd yn y tîm o Swyddogion Monitro Iechyd a Diogelwch.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Parkhurst ar y newidiadau yn nhelerau ac amodau staff yn y Gwasanaethau Ieuenctid, rhoddodd yr Uwch Reolwr (Gwasanaethau Ieuenctid Sir y Fflint) drosolwg o’r gwaith a oedd yn cael ei wneud o ran manteisio i’r eithaf ar asedau. Gan gyfeirio at yr elfen staffio eglurodd fod staff wedi cael eu talu yn erbyn graddfa gyflog y JNC yn flaenorol a chynigiwyd symud y staff i gyd i raddfa gyflog yr NJC. Byddai hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal mor effeithlon â phosibl ynghyd â chynyddu'r ddarpariaeth a phresenoldeb ar y stryd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst at y cynnydd yn y galw a chymhlethdod Addysg Heblaw yn yr Ysgol a gofynnodd a allai’r gostyngiad yn yr angen am leoliadau allanol leihau’r gost a amcangyfrifwyd ar gyfer 2025/26. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Strategol fod y pwysau ar y gyllideb a ddangosir ar gyfer 2025/26 o ganlyniad i gynnydd yng nghostau staff ac adnoddau sydd eu hangen ym Mhlas Derwen. Dywedodd y byddai'n siarad ag Uwch Reolwr y Gwasanaethau Cynhwysiant yn dilyn y cyfarfod ynghylch pa wybodaeth am amcangyfrifon y gellid ei rhoi i'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Parkhurst hefyd at argymhelliad 5 a ddangoswyd yn yr adroddiad a dywedodd ei fod yn cael anhawster darparu meysydd o gostau effeithlonrwydd posibl gan nad oedd yr Aelodau wedi cael dadansoddiad o gyllideb y portffolio Addysg ac Ieuenctid fesul llinell. Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Strategol at wybodaeth a roddwyd i'r Aelodau y llynedd a oedd yn rhoi dadansoddiad o'r cyllidebau portffolio a dywedodd y gellid dosbarthu hwn i'r Pwyllgor pe bai'n credu y byddai'n ddefnyddiol. Croesawodd y Cynghorydd Parkhurst y wybodaeth ychwanegol a oedd yn cael ei dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Glyn Banks at y ffigur y tu allan i’r Sir o £500,00 yr oedd wedi'i gynnwys yn y rhagolwg a gofynnodd a ddylai hyn gael ei ddangos fel gorwariant rhagamcanol o £1 miliwn. Wrth ymateb, dywedodd y Rheolwr Cyllid Strategol ei fod yn ymddangos fel gorwariant o £1 miliwn yn ystod y flwyddyn ar hyn o bryd yn yr Adroddiad Monitro a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Cabinet. Roedd rhywfaint o alw disgwyliedig wedi'i gynnwys yn y ffigur hwn fel arian wrth gefn a fyddai'n cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn tra bod lleoliadau'n symud i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Roedd angen adolygu hyn yn gyson ac efallai y bydd angen ei gynyddu wrth i bethau fynd rhagddynt drwy gydol y flwyddyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at ddemograffeg a'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n dod i mewn i ysgolion a gofynnodd a oedd hyn yn gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref erbyn hyn. Wrth ymateb i hyn, nid oedd y Rheolwr Cyllid Strategol yn credu bod hyn yn gysylltiedig. Roedd y niferoedd yn gostwng mewn ysgolion cynradd ond nid oedd cynnydd

cyfatebol yn y ffigurau addysg gartref. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) fod y rhagolwg hwn yn ymwneud â gostyngiad yng nghyfraddau genedigaethau a oedd wedi'i fonitro ers nifer o flynyddoedd ac a oedd yn anodd ei ragweld. Esboniodd hi sut cafodd y cyllid ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 3 ei ddyrannu.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Portffolio Addysg ac Ieuenctid wedi bod yn rhagweld y gostyngiad disgwyliedig yn niferoedd ysgolion cynradd ers nifer o flynyddoedd. Cyfeiriodd at y pwysau a oedd yn bodoli rhai blynyddoedd yn ôl pan oedd grŵp mawr o ddisgyblion blwyddyn 7 yn mynd drwy ysgolion. Nid oedd yn credu bod hyn yr un peth ac er bod cryn ddirywiad wedi bod yng ngrwpiau blwyddyn ysgolion cynradd, ei fod o ganlyniad i gylchoedd poblogaeth naturiol. Roedd yn deall pa mor anodd oedd hyn i ysgolion a chyrff llywodraethu o ran y penderfyniadau anodd yr oedd yn rhaid eu gwneud. Atgoffodd yr Aelodau mai'r gyllideb Addysg oedd y gyllideb fwyaf yn y Cyngor, ac yr oedd cyllidebau dirprwyedig yr ysgolion yn dod i 80/90% a oedd yn cael ei ddirprwyo i benderfyniadau ariannol a wnaed gan ysgolion a chyrff llywodraethu yn Sir y Fflint. Cytunodd ei bod yn bwysig bod craffu'n digwydd ar weddill y gyllideb oedd ar ôl yn yr Adran Addysg. Pe bai rhannau o gyllideb y Cyngor yn cael eu neilltuo yn ystod y cyfnod cynnar hwn, byddai goblygiadau o ran lleihau costau ar gyfer adrannau eraill fel y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Gwasanaethau Stryd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at y sylwadau a wnaed gan yr Arweinydd. Cyfeiriodd at y toriad o 3% i gyllidebau pob ysgol y llynedd ac yr oedd wedi sgwrsio â swyddogion cyllid ynglŷn â sut y cafodd hyn ei weithredu. Roedd yn sylweddoli y byddai hyn yn parhau bob blwyddyn gan ei fod yn rhan o'r gyllideb sylfaenol. Roedd yn bosibl i nifer fechan o ysgolion dynnu'r arian o'u balansau, ond nid oedd hyn yn berthnasol i bob ysgol, ac yr oedd yn ymwybodol o rai ysgolion oedd â balansau annigonol i ariannu'r toriad hwnnw yn y gyllideb. Dywedodd fod hwn yn doriad penodol yn y gyllideb ar gyfer pob ysgol, pa un a oedd balans cadarnhaol o ran y cyllid ai peidio.

Ymatebodd yr Arweinydd i egluro mai'r ffordd y cafodd ei weinyddu oedd drwy Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion ond mai'r bwriad oedd effeithio ar falansau ysgolion. Roedd yn gwerthfawrogi nad oedd gan bob ysgol falansau a phan luniwyd yr adroddiad balansau yr oedd rhai ysgolion yn rheoli eu balansau yn dda ac yr oedd pwysau ar ysgolion eraill yr oedd yn rhaid iddyn nhw ymdrin â nhw. Roedd yn rhaid i'r Cyngor gynhyrchu cyllideb gytbwys ac oni bai bod adnoddau ychwanegol ar gael, cynnydd yn Nhreth y Cyngor oedd yr unig ffordd arall i godi arian. Cyfeiriodd at benderfyniad y Cyngor i gadw Treth y Cyngor ar 5% y llynedd pan oedd chwyddiant ar 10% a chostau'n cynyddu. Roedd hon yn sefyllfa bryderus iawn i bawb ac yr oedd y Cyngor yn dymuno darparu'r gwasanaethau gorau i Sir y Fflint.

Cafodd yr argymhellion, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Arnold Woolley a'i eilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi pwysau o ran costau'r portffolio Addysg ac Ieuenctid;

(b) Nodi pwysau o ran costau cyllidebau Ysgolion;

(c) Nodi dewisiadau’r portffolio Addysg ac Ieuenctid i leihau cyllidebau;

(d) Nodi'r dewisiadau i leihau cyllideb ddirprwyedig yr ysgolion;

(e) Bod adroddiad ar faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw yn cael ei gynnwys ar Raglen Gwaith i’r Dyfodol y Pwyllgor; a

(f) Bod adroddiad ar Ddemograffeg a sut y byddai hyn yn effeithio ar gyllidebau yn y dyfodol yn cael ei gynnwys ar Raglen Gwaith i’r Dyfodol y Pwyllgor.

## 32. CYNLLUN CHWARAE GWYLIAU’R HAF SIR Y FFLINT, 2023

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Gwasanaethau Ieuenctid Sir y Fflint) adroddiad i roi adborth ar Gynllun Chwarae Gwyliau’r Haf Sir y Fflint 2023.

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) ddiweddariad manwl ar Gynllun Chwarae Gwyliau’r Haf 2023, gan nodi bod Sir y Fflint yn cynnig cyfanswm o 56 o leoliadau diogel ar gyfer cynlluniau chwarae, ac mae’r cynlluniau hyn yn cael eu cynnal dros gyfnod o 3, 4, 5, neu 6 wythnos, yn dibynnu ar ofynion penodol y Cynghorau Tref a Chymuned. Cofrestrodd cyfanswm o 3,681 o blant ledled y sir ar gyfer y Cynlluniau Chwarae, gan arwain at gyfanswm o 11,907 o gofrestriadau dyddiol. Cynhaliwyd 1,200 o sesiynau chwarae, neu 8,000 o oriau o amser cyswllt. Roedd 69 o aelodau o staff wedi’u cyflogi ar gontractau tymor byr ar gyfer yr Haf a chawson nhw 5 diwrnod o hyfforddiant cyn cynnal y cynllun. Yn ogystal â'r ymrwymiad i fynd i’r afael â bod yn llwglyd dros y gwyliau, darparwyd 5,000 o boteli o ddŵr a 3,000 o fariau byrbrydau.

Gwnaeth Cynlluniau Chwarae Gwyliau’r Haf eleni gyflwyno’r Gymraeg i weithgareddau chwarae ym mhob safle a oedd yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir y Fflint. Yn ogystal â hyn, yr oedd o leiaf un aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg yn bresennol mewn 10 safle a oedd yn galluogi darpariaeth ehangach ar gyfer plant Cymraeg eu hiaith. Hefyd, yn ystod haf 2023, cofrestrodd 32 o blant ac unigolion ifanc ar y Cynllun Cyfeillio, gan roi mynediad iddynt i Gynllun Chwarae eu cymuned leol. Roedd y Cynllun Cyfeillio yn cefnogi cynhwysiant, hygyrchedd ac ymgysylltiad i bob plentyn, waeth beth fo'u gallu. Sicrhawyd y cyllid ar gyfer y Cynllun Cyfeillio trwy grant Teuluoedd yn Gyntaf.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) fod y Cynlluniau Chwarae yn cael eu cefnogi gan 30 o Gynghorau Tref a Chymuned a bod amrywiaeth o gynlluniau yn cael eu cynnig. Yn rhan o argymhelliad 3, sydd wedi’i amlinellu yn yr adroddiad, cynigiwyd newid hwn naill ai’n gynllun 3 neu 6 wythnos. Byddai hyn yn helpu i reoli a staffio'r safleoedd, ac eglurwyd sut y gallai

cael dau safle 3 wythnos fod o fudd i gymuned. Roedd yn anodd datblygu'r gwasanaeth ar hyn o bryd a chyfeiriodd at yr argymhelliad bod Cynghorau Tref a Chymuned yn ystyried y posibilrwydd i ymrwymo mewn egwyddor i gylch ariannu 3 blynedd a fyddai'n galluogi i ddarpariaeth ac amcanion hirdymor mewn cymunedau gael eu hystyried.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) hefyd fod Datblygiad Chwarae Sir y Fflint yn cynllunio dyfodol arloesol a chynaliadwy i ddarpariaeth ac ymrwymiad i blant yn Sir y Fflint. Gan ddefnyddio'r ddarpariaeth lwyddiannus yn ystod gwyliau'r haf fel patrwm, y nod oedd cynnig darpariaethau gwyliau yn ystod pob gwyliau ysgol. Amlinellwyd manteision yr ymrwymiad hwn yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Cynghorydd Ryan McKeown faint o blant a oedd yn mynd i gynlluniau chwarae'r haf yn 2023 a oedd yn cael prydau ysgol am ddim, sut yr oedd hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol ac a oedd data y gellir eu cymharu ynghylch plant sy'n cael prydau ysgol am ddim ledled Sir y Fflint. Cyfeiriodd at y 25 o gynlluniau a oedd yn cynnal cynlluniau 4 neu 5 wythnos yn ystod haf 2023 a gofynnodd a oedd swyddogion yn rhagweld y byddai'r cynlluniau hyn yn cynyddu i 6 wythnos neu'n lleihau i 3 wythnos, fel y cynigir yn argymhelliad 3. Gofynnodd hefyd pryd y byddai cyswllt â Chynghorau Tref a Chymuned yn digwydd ynghylch newidiadau arfaethedig ar gyfer Cynllun Chwarae Gwyliau'r Haf 2024.

Eglurodd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) nad oedd gan y gwasanaeth wybodaeth am blant sy'n mynd i'r cynllun a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ond y gellid rhannu'r wybodaeth oedd ganddynt â'r swyddogion perthnasol er mwyn gwneud dadansoddiad. O ran y 25 o safleoedd arweiniol, dywedodd na fyddai'r cynnydd i ddarpariaeth 6 wythnos yn cael effaith ariannol sylweddol. Gwnaeth hefyd gadarnhau bod llythyrau at Gynghorau Tref a Chymuned yn cael eu drafftio ar hyn o bryd.

Eglurodd y Cynghorydd McKeown y byddai'r wybodaeth am nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n mynd i'r cynllun chwarae yn ddefnyddiol ac yr oedd yn credu y gellid ystyried hyn yn rhan o waith y Gweithgor Prydau Ysgol. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Gwasanaethau Ieuenctid Sir y Fflint) fod hyn yn rhywbeth y bydden nhw'n ei gefnogi a bod y gwasanaeth wedi bod yn ymwneud â chyflwyno'r rhaglenni bwyd a ffitrwydd hwyliog a mynd i'r afael â bod yn llwglyd dros y gwyliau. Nododd y cymhlethdodau ynghlwm â dosbarthu bwyd i safleoedd a oedd ar agor am ychydig orau'n unig bob dydd, ond dywedodd y byddai'r gwasanaeth yn cefnogi cyfranogiad darpariaeth ieuenctid a chwarae.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at Glwb Pontio Coed-llai, y darparwyd manylion amdano yn Atodiad 6 yr adroddiad ac awgrymodd fod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad mwy cynhwysfawr am lwyddiant y cynllun mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) y byddai'n fodlon darparu adroddiad arall i'r Pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie a oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r gwahanol boblogaethau ym mhob un o'r Cynghorau Tref a Chymuned ac yr oedd gan yr un lleiaf 278 eiddo ac yr oedd hanner y Cynghorau Tref a Chymuned yn cynnal cyllideb o lai na £50,000 y flwyddyn. Credai y gallai fod yn anodd i rai ddarparu cyllid ychwanegol i symud tuag at gynyddu i gynllun 6 wythnos a chynllun gwyliau ysgol gydol y flwyddyn. Wrth ymateb i hyn, yr oedd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) yn deall yr heriau ariannol a wynebwyd a dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud ar y cyd i asesu a oedd ffrydiau ariannu ychwanegol ar gael. Eglurodd y gallai'r Cynghorau Tref a Chymuned hynny sy'n ariannu cynlluniau 4 wythnos ostwng i 3 wythnos a thrwy hyn, arbed arian, ond pe bai Cyngor Tref neu Gymuned yn ariannu dau safle 4 wythnos, gallai'r rhain barhau fel un safle 6 wythnos a bydd y gymuned yn elwa o ddarpariaeth drwy gydol yr haf yn hytrach na chynllun byrrach ar ddechrau gwyliau'r haf.

Mynegodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst bryder ynghylch y problemau â'r system TG nad oedd wedi caniatáu i rieni gofrestru eu plant ychydig ddyddiau cyn i'r cynlluniau ddechrau ac nad oedd y deunydd hysbysebu ar gael tan ychydig ddyddiau cyn i'r cynlluniau ddechrau a oedd yn golygu nad oedd rhai rhieni'n ymwybodol bod y ddarpariaeth yn rhedeg. Mewn ymateb i hyn, cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) eu bod nhw wedi cael gwybod am y problemau TG a'u bod nhw wedi'u datrys yn brydlon. Cytunodd bod y deunydd hysbysebu wedi bod yn hwyr a chadarnhaodd fod gwaith yn cael ei wneud nawr yn barod ar gyfer yr ymgyrch hyrwyddo y flwyddyn nesaf i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Glyn Banks at y 5,000 o boteli o ddŵr a ddarparwyd ac awgrymodd fod poteli y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu darparu ar ddiwrnod cyntaf y cynllun y gallai'r plant eu hail-lenwi eu hunain a dod â hwy gyda nhw i'r diwrnodau sy'n weddill o'r cynllun. Dywedodd y byddai hyn yn helpu i leihau'r defnydd o blastig a hefyd yn fudd ariannol y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwobrau/tystysgrifau i blant wrth hybu ailgylchu. Cefnogodd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) yr awgrym hwn gan y Cynghorydd Banks.

Gwnaeth y Cynghorydd Banks roi gwybodaeth hefyd am y ddau gynllun a gefnogwyd yn ei ward a oedd yn cynnwys nifer fawr o bentrefi. Cyfeiriodd at y cynnig i Gynghorau Tref a Chymuned ymrwymo i gylch ariannu tair blynedd a gofynnodd a ellid rhoi sicrwydd na fyddai unrhyw gynnydd ariannol yn ystod y tair blynedd. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Swyddog Arweiniol (Datblygu Chwarae) y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal â Chynghorau Tref a Chymuned, ac adroddodd ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn ymwneud â safleoedd y flwyddyn nesaf. Gan gyfeirio at y cyllid tair blynedd dywedodd y byddai'r costau a ragwelwyd yn cael eu darparu a bwriedir peidio â symud oddi wrth hyn oni bai bod newid sylweddol. O ran y Cynghorau Tref neu Gymuned hynny a gyflwynodd eu cynlluniau eu hunain, roedd e'n cefnogi hyn yn llwyr a dywedodd bod hyfforddiant yn cael ei gynnig i'w staff yn rhad ac am ddim i sicrhau bod y ddarpariaeth chwarae i gyd yn Sir y Fflint yn cael ei chynnal yn yr un modd.

Gofynnodd y Cynghorydd Banks am eglurhad ar argymhelliad 1, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a chadarnhaodd Arweinydd y Cyngor y gofynnwyd i'r Pwyllgor gefnogi'r cynnig i drafod â Chynghorau Tref a Chymuned ar gylch ariannu tair blynedd. Awgrymodd yr Hwylusydd, yn dilyn y sylwadau gan y Cynghorydd Banks, bod argymhelliad 1 yn cael ei ddiwygio i "bod y Pwyllgor yn cefnogi Gwasanaethau Ieuenctid wrth gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned ynghylch cylch ariannu tair blynedd mewn egwyddor ar gyfer darpariaeth chwarae cymunedol."

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad ac yr oedd yn falch o weld y wybodaeth am nifer y safleoedd a ddarparwyd, y plant yn cymryd rhan a bod y cynllun cyfeillio yn dal i fod ar waith. Roedd hefyd yn falch o weld bod hyn yn cael ei gefnogi gan y 3 aelod o'r tîm o Wcráin a'r 10 aelod o'r tîm sy'n siarad Cymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei hybu.

Cafodd yr argymhelliad cyntaf, fel y'i diwygiwyd, a gweddill yr argymhellion, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Glyn Banks a'u heilio gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi Gwasanaethau Ieuenctid wrth gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yn sgil cylch ariannu tair blynedd mewn egwyddor ar gyfer darpariaeth chwarae cymunedol;

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Gwasanaethau Ieuenctid i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, fel Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gynnig pecyn hyfforddiant cynhwysfawr i aelodau'r tîm Datblygu Chwarae i gyd i sicrhau bod darpariaeth Gwaith Chwarae o'r safon uchaf;

(c) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Gwasanaethau Ieuenctid i gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned i ddewis naill ai safleoedd tair neu chwe wythnos yn unig, er mwyn hwyluso recriwtio, cynllunio, parhad busnes a defnydd effeithlon o adnoddau;

(d) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo 'Rhaglen Bontio' gan Wasanaethau Datblygu Chwarae ac Ieuenctid Sir y Fflint, er mwyn paratoi plant yn effeithiol ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau drwy strategaethau ymdopi yn seiliedig ar chwarae, a oedd yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf; a

(e) Bod y Pwyllgor yn ymrwymo i gefnogi Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol trwy eiriolaeth, mynd i gyfarfodydd, a mynd i ddigwyddiadau lleol a fyddai'n helpu i ddatblygu'r Grŵp Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol, hyrwyddo cynhwysiant, denu cyllid allanol ychwanegol, cynyddu ymgysylltiad cymunedol a helpu i greu rhwydweithiau cryfach sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

## 33. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.04 pm)

..............................

**Cadeirydd**